



Dirnad Economi Cymru

Adroddiad chwarterol

Mawrth 2026

Crynodeb	3
1. Cyflwyniad	6
2. Rhagolygon economaidd byd-eang, y DU a rhanbarthol	7
3. Y darlun BBaCh yn y DU a Chymru: Amodau newidiol yn llywio'r galw am gyllid	15
4. Darparu cyllid BBaCh a chost cyllid	22
5. Gweithgarwch Banc Datblygu Cymru	27
6. Casgliadau	32
Atodiad 1	34
Atodiad 2	35

Mark Lang, Max Munday, Annette Roberts, Neil Roche

Uned Ymchwil Economi Cymru, Ysgol Busnes Caerdydd
mundaymc@cf.ac.uk

I gael rhagor o wybodaeth neu i gyflwyno adborth a chynigion
ymchwil, e-bostiwch: DirnadEconomi@bancdatblygu.cymru

*Mae'r SYG wedi rhoi cyngor ar gynhyrchu'r adroddiad hwn ond nid yw'n gyfrifol
am y safbwyntiau na'r ystadegau a gyflwynwyd ac nid yw wedi dilysu'r cynnwys.*

Dirnad Economi Cymru Cyfyngedig, Uned J Pentref Busnes Iâl, Ffordd Ellice, Wrecsam, Cymru, LL13 7YL, 11001584.

Banc Datblygu Cymru ccc (Development Bank of Wales Plc) yw cwmni daliannol Grŵp sy'n masnachu fel Banc Datblygu Cymru. Mae'r Grŵp yn cynnwys nifer o is-gwmnïau sydd wedi'u cofrestru ag enwau gan gynnwys y blaenlythrennau BDC / DBW. Mae Banc Datblygu Cymru ccc yn gwmni cyllid datblygu sy'n eiddo'n gyfan gwbl i Weinidogion Cymru ac nid yw wedi'i awdurdodi na'i reoleiddio gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (ArhD) na'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (AYA). Mae gan Banc Datblygu Cymru (Development Bank of Wales) dri is-gwmni sydd wedi'u hawdurdodi a'u rheoleiddio gan yr AYA. Sylwch nad yw Banc Datblygu Cymru ccc nac unrhyw un o'i is-gwmnïau yn sefydliadau bancio nac yn gweithredu felly. Mae hyn yn golygu na all unrhyw un o endidau'r grŵp dderbyn blaendaliadau gan y cyhoedd. Mae siart strwythur cyfreithiol cyflawn ar gyfer Banc Datblygu Cymru ccc ar gael yn bancdatblygu.cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu adolygiad o ddata economaidd sy'n berthnasol i ddatblygiad busnesau bach a chanolig yng Nghymru, a chrynodeb o weithgareddau buddsoddi Banc Datblygu Cymru **yn ystod ail chwarter blwyddyn ariannol 2025/26**. Mae'r adroddiad yn cynnwys sylwadau ar y cyd-destun economaidd byd-eang a lleol a'r amodau sy'n effeithio ar y cyflenwad a'r galw am gyllid yng Nghymru.

Mae'r adroddiad wedi'i ddatblygu'n bennaf gan ddefnyddio data ystadegol cyhoeddedig hanesyddol, ond nodir y gall amodau economaidd lleol newid yn gyflym iawn mewn ymateb i gyhoeddiadau newydd. Er enghraifft, datgelodd cyllideb y DU newyddion croesawgar o ran cyhoeddi dau barth DA (**Deallusrwydd Artiffisial**) i Gymru y gobeithir y byddant yn gysylltiedig ag 8,000 o swyddi a'r penderfyniad i fwrw ymlaen â chapasiti niwclear newydd yn Wylfa ar Ynys Môn. Cyhoeddodd y Prif Weinidog hefyd ym misoedd olaf 2025 y gallai Cymru fod yn ennill hyd at **£16bn o fuddsoddiad newydd**. Yr un mor arwyddocaol yw hwb mewn gweithgaredd economaidd Cymru yn y cyfnod 2026-30 sy'n gysylltiedig â buddsoddiad cyfleustodau dŵr newydd. Mae rheoleiddiwr y diwydiant dŵr wedi awdurdodi gweithgaredd a fyddai'n **caniatáu i Dŵr Cymru ymrwymo tua £6bn yn y cyfnod hyd at 2030** (mae hyn yn gynnwys o'r £3.8bn o'r cyfnod blaenorol 2020-2025). I Brifddinas-Ranbarth Caerdydd roedd newyddion da gan fod UKRI wedi targedu'r ardal ar gyfer y Gronfa Partneriaethau Arloesi Lleol (LIPF) a chyda disgwyl i £30m gael ei fuddsoddi yn datblygu clystyrau arloesi lleol.

Disgwylir i'r prosiectau buddsoddi hyn yng Nghymru arwain at **weithgarwch economaidd newydd yng Nghymru yn ystod 2026** ar adeg pan fo marchnadoedd llafur y DU yn ymddangos yn gwanhau.

Ers drafftio'r adroddiad hwn a'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno data newydd i'r adroddiad (22 Rhagfyr 2025), nodir bod **ansicrwydd daear-wleidyddol cynyddol** wedi'i achosi

gan gyhoeddiadau gan yr Unol Daleithiau ar ei bwriadau mewn perthynas â'r Ynys Las, ei hymyrraeth uniongyrchol yn Venezuela a'r potensial ar gyfer ymyriadau tymor byr yn Iran. Ymddengys bod y bygythiad o dariffau newydd ar wledydd dethol yn Ewrop yn ogystal ag ar Ganada o ganlyniad i'w gwrthwynebiad i ddatganiadau ar ddyfodol yr Ynys Las wedi lleihau erbyn diwedd mis Ionawr 2026, ond mae'r amgylchedd rhyngwladol yn parhau i fod yn anwadal iawn.

Amodau economaidd

Diwygiodd y Gronfa Ariannol Ryngwladol (a adwaenir fel yr IMF) y **rhagamcan twf byd-eang ar gyfer 2025 i fyny 0.2 pwynt canran i 3.2%**. Fodd bynnag, arhosodd y rhagamcan ar gyfer 2026 ar 3.1% oherwydd ansicrwydd yn y farchnad fyd-eang a mwy o anwadalrwydd.

Dangosodd data gan yr SYG fod chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) deuddeg mis **yn y DU yn 3.2% ym mis Tachwedd 2025, i lawr o 3.6% yn y deuddeg mis hyd at fis Hydref 2025**. Y cyfrannwr mwyaf at i lawr oedd o adrannau bwyd a diodydd di-alcohol, ac alcohol a thybaco, tra bod y cyfranwyr mwyaf at i fyny yn cynnwys yr adran gyfathrebu.

Ym mis Rhagfyr 2025, **pleidleisiodd Banc Lloegr i dorri Cyfradd y Banc o 4.0% i 3.75%** yn dilyn arwyddion bod chwyddiant yn parhau i ostwng.

Yn **y tri mis hyd at Hydref 2025**, fe amcangyfrifwyd bod **cynnyrch domestig gros (CDG) y DU wedi gostwng 0.1%**. Cafodd hyn ei yrru'n bennaf gan ddirywiad yn y sector cynhyrchu yn y cyfnod ac yn arbennig gostyngiad o 17.7% yng ngweithgynhyrchu cerbydau modur, trelars a lled-drelars a ddeilliodd yn rhannol o ymosodiad seiber ar Jaguar Land Rover a ddechreuodd ym mis Medi 2025.

Rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2025, roedd cyfanswm **y swyddi gwag yn y DU wedi gostwng 77,000** o'i gymharu â lefel y llynedd.

Mae amcangyfrifon o TWE (Talu Wrth Ennill) yn dangos gostyngiad yn nifer y gweithwyr cyflog yn y DU ar gyfer mis Tachwedd 2025 i 30.3m, gostyngiad o 171,000 o weithwyr o'i gymharu â mis Tachwedd 2024. **Yng Nghymru, gostyngodd nifer y gweithwyr cyflogedig 11,600 i 1.31m yn y flwyddyn hyd at fis Tachwedd 2025.**

Roedd y **gyfradd anweithgarwch economaidd** yn y DU **yn 21.1%** yn y flwyddyn hyd at fis Medi 2025. **Yng Nghymru**, y ffigur cymharol oedd **24.1%**. Er bod hyn yn ostyngiad ar draws y DU a Chymru, mae anweithgarwch economaidd yn parhau i fod yn gyfyngiad sylweddol ar dwf economaidd.

Profodd sector adeiladu Cymru **ail chwarter yn olynol o dwf yn 2025Ch2**. Fodd bynnag, arhosodd mynegai adeiladu Cymru 24.3% yn is na lefel Cymru yn 2023 yn 2025Ch2, gyda'r ffigur cymharol ar gyfer y DU gyfan yn cyrraedd 2.2% uwchlaw lefelau 2023.

Gostyngodd gwerth **nwyddau a allforiwyd o Gymru 7.3% i £16.9bn yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2025**. Bydd hyn, ynghyd â'r gostyngiad yn nifer yr allforwyr dros yr un cyfnod, yn effeithio ar weithgarwch economaidd a chynhyrchiant.

Y rhagolwg cyfartalog ar gyfer twf CDG y DU yn 2025 oedd 1.4% ym mis Rhagfyr 2025. Roedd hyn yr un fath â'r rhagolwg newydd cyfartalog a wnaed ym mis Tachwedd 2025.

Amodau economaidd newidiol sy'n llunio'r galw am gyllid

Gostyngodd Mynegai hyder busnes Busnesau Bach y DU Ffederasiwn y Busnesau Bach ymhellach **yn 2025Ch3 i - 58.1**, ond arhosodd uwchlaw'r isafswm pedair blynedd o - 64.5 a gofrestrwyd yn 2024Ch4. Parhaodd yr economi ddomestig i fod y prif bryder i fusnesau bach a chanolig fel rhwystr i dwf busnesau.

Dangosodd y Monitor Cyllid Busnesau Bach a Chanolig (ac eithrio busnesau yn dechrau o'r newydd) **fod 24% o fusnesau bach a chanolig y DU** (ac eithrio busnesau newydd) **wedi nodi eu bod wedi profi twf dros y 12 mis diwethaf yn ystod 3ydd chwarter 2025**, sy'n is na'r lefel a adroddwyd yn y chwarter blaenorol.

Roedd nifer **y busnesau a sefydlwyd o'r newydd yng Nghymru yn fwy na nifer y busnesau a fu farw yn ystod Ch3 2025**. Cyfanswm y busnesau newydd a sefydlwyd yng Nghymru yn Ch3 2025 oedd 2,375, tra bod nifer y busnesau a fu farw yng Nghymru yn ystod yr un cyfnod yn 2,245.

Adroddodd Arolwg Effeithiau ac Amodau Busnes (a adwaenir fel BICS) y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 1 i 31 Hydref 2025 fod **33.1% o fusnesau Cymru yn disgwyl y byddai eu perfformiad yn gwella yn y flwyddyn i ddod** (DU 32.8%).

Dangosodd data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol fod **prisiau tai Cymru wedi cynyddu 2.7% yn y 12 mis hyd at fis Medi 2025**, a bod pris cyfartalog tai yng Nghymru ym mis Medi 2025 yn £272,000.

Cofrestrodd Mynegai Rheolwyr Prynu Adeiladu S&P Global UK 39.4 yng ngweithgarwch adeiladu cyffredinol ym mis Tachwedd 2025, ymhell islaw'r marc 50 sy'n gwahaniaethu rhwng ehangu a chrebachiad.

Y cyflenwad a'r galw am gyllid

Adroddodd benthycwyr fod **argaeledd credyd ar gyfer busnesau bach, canolig a mawr wedi cynyddu yn ystod 2025Ch3**. Yn y cyfamser, adroddodd benthycwyr hefyd fod **y galw am fenthyca gan fusnesau bach a mawr wedi cynyddu ychydig**, a bod y galw gan fusnesau canolig ddim wedi newid, yn ystod 2025Ch3.

Adroddodd UK Finance fod **benthyca gros i fusnesau bach a chanolig y DU gan y prif**

fanciau stryd fawr wedi cynyddu 6.4% flwyddyn ar ôl blwyddyn yn ystod chwarter 3 2025.

Canfu Monitor Cyllid Busnesau Bach a Chanolig Cymru fod 42% **o fusnesau bach a chanolig Cymru wedi defnyddio rhyw fath o gyllid allanol yn ystod ail chwarter 2025**. Cardiau credyd oedd y math mwyaf cyffredin o gyllid busnes a ddefnyddir gan fusnesau bach a chanolig Cymru o hyd.

Roedd y **gyfradd llog weithredol ar fenthyciadau newydd i fusnesau bach a chanolig yn 4.17% ym mis Hydref 2025**, i lawr o 7.26% ym mis Hydref 2024.

Cynnydd Banc Datblygu Cymru

Yn 2025/26Ch2, **cwblhaodd Banc Datblygu Cymru 115 o fuddsoddiadau** gyda chyfanswm gwerth o £34.8m. Roedd y buddsoddiadau hyn yn gysylltiedig â 700 o swyddi newydd a swyddi wedi'u diogelu.

Y sector adeiladu oedd yn dominyddu gweithgaredd buddsoddi yn 2025/26Ch2, gan gyfrif am 44% o werth y buddsoddiad (£15.5m).

Roedd y **nifer uchaf o swyddi** a grëwyd neu a ddiogelwyd gan fuddsoddiadau Banc Datblygu yn 2025/26Ch2 yn y sector **cyflenwi dŵr, carthffosiaeth, rheoli gwastraff ac adfer (120 o swyddi)**. Fe wnaeth buddsoddiadau'r Banc Datblygu yn y **sector gweithgynhyrchu creu neu ddiogelu 41 o swyddi** (6% o gyfanswm y swyddi) yn 2025/26Ch2.

Casgliadau

Mae'r adroddiad chwarterol hwn yn dod i'r casgliad bod pob arwydd bellach y bydd gwelliant cyfyngedig yn rhagolygon economaidd y DU yn 2026 a bod arwyddion bod amodau marchnad lafur y DU yn gwanhau.

Fodd bynnag, **yn 2025/26 mae cyfres o brosiectau buddsoddi mewn ynni, TGCh, gweithgynhyrchu a chyfleustodau** wedi cael eu cyhoeddi yn economi Cymru a allai roi hwb sylweddol i weithgarwch economaidd lleol yn y cyfnod hyd at 2030. Mae'r prosiectau hyn yn canolbwyntio ar ddiwydiannau lle mae twf cynhyrchiant cryf eisoes wedi bod ac felly disgwylir iddynt roi hwb pellach i lefelau cynhyrchiant Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu adolygiad o ddata economaidd sy'n berthnasol i ddatblygiad busnesau bach a chanolig yng Nghymru, ochr yn ochr â chrynodeb o weithgareddau buddsoddi Banc Datblygu Cymru yn ystod ail chwarter blwyddyn ariannol 2025/26. Mae'r adroddiad yn cynnwys sylwadau ar y cyd-destun economaidd byd-eang a lleol a'r amodau sy'n effeithio ar y cyflenwad a'r galw am gyllid yng Nghymru.

Mae adrannau 2-4 o'r adroddiad hwn yn darparu'r cyd-destun macro-economaidd y mae busnesau bach a chanolig Cymru yn gweithredu ynddo ac yn archwilio ffactorau sy'n ymwneud â'r galw am gyllid busnesau bach a chanolig, a'i gyflenwad a'i gost. Mae adran 5 yn crynhoi gweithgareddau Banc Datblygu Cymru. Mae'r adran olaf yn darparu rhai casgliadau cyffredinol i'r adroddiad.

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig i raddau helaeth ar ddata sydd ar gael i'r cyhoedd (a adroddir yn gyffredinol mewn blynyddoedd calendr), ynghyd â dadansoddiad arbennig o ddata a ddarparwyd gan Fanc Datblygu Cymru (a adroddir yn bennaf mewn blynyddoedd ariannol). Oherwydd gwahaniaethau mewn cyfnodau adrodd, bydd rhywfaint o anghydweddiad amserol bach o ddata yn yr adroddiad hwn.

Cwblhawyd drafftio sylweddol yr adroddiad hwn ar 22 Rhagfyr 2025.

Mae Dirnad Economi Cymru wedi cyhoeddi'r adroddiadau canlynol ers hynny:

- Buddsoddi cynhyrchiol yng Nghymru: beth sy'n llunio penderfyniadau buddsoddi?¹
- TechAri, bancio perthynas a benthyca i fusnesau bach a chanolig.²
- Adroddiad Cyrchu Cyllid ar gyfer BBaCh Cymru – mewn cydweithrediad â Banc Busnes Prydain.³

Mae'n bwriadu cyhoeddi cyfres o allbynnau yn y misoedd nesaf, gan adlewyrchu meysydd o ffocws dadansoddol parhaus, gan gynnwys adroddiadau ar:

- Llywodraethu a chyllido mentrau dan arweiniad y gymuned yng Nghymru.
- Rôl 'arwyr cynhyrchiant' yn economi Cymru: eu cyfraniad at dwf a chynhyrchiant.

¹ https://developmentbank.wales/sites/default/files/2026-02/Digital_TAGGED_BBB_Wales_DNA2F_Report_CY.pdf

² TechAri, bancio perthynas a benthyca i fusnesau bach a chanolig – Banc Dat

³ https://developmentbank.wales/sites/default/files/2026-02/Digital_TAGGED_BBB_Wales_DNA2F_Report_CY.pdf

- Uwchraddiwyd rhagolwg twf byd-eang y Gronfa Ariannol Ryngwladol ar gyfer 2025 0.2 pwynt canran i 3.2%, tra bod rhagamcan 2026 wedi aros ar 3.1%.
- Roedd chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) deuddeg mis yn y DU yn 3.2% ym mis Tachwedd 2025, i lawr o 3.6% ym mis Hydref 2025.
- Ar ôl cynnal y Gyfradd Banc ar 4.0% ers mis Medi 2025, pleidleisiodd Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr i'w thorri i 3.75% ym mis Rhagfyr 2025.
- Yn y deuddeg mis a ddaeth i ben ym mis Medi 2025, roedd cyfradd anweithgarwch economaidd y DU yn 21.1%. Yng Nghymru, y ffigur cymharol oedd 24.1%.

Rhagolygon byd-eang

Mynegodd Rhagolygon Economaidd y Byd⁴ y Gronfa Ariannol Ryngwladol (a adwaenir fel yr IMF) a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2025, fod "twf byd-eang yn parhau i fod yn dawel" gyda thwf a ragwelwyd o 3.2% yn 2025 a 3.1% yn 2026. Roedd y rhagolwg newydd ar gyfer 2025 0.2 pwynt canran yn uwch na'r hyn a nodwyd yn Niweddariad Rhagolwg Economaidd y Byd ym mis Gorffennaf 2025⁵, tra bod rhagolwg 2026 ar gyfer twf byd-eang wedi aros yr un fath yn y ddau gyfnod. Nododd yr IMF fod ffactorau a oedd yn cefnogi gweithgaredd ar ddechrau 2025, megis "blaenlwytho" rhai llifau masnach wrth ragweld tariffau uwch i ddod, yn pylu, a bod yr amgylchedd cyffredinol yn parhau i fod yn anwadal. Roedd y rhagolygon IMF hyn yn cyd-fynd yn agos â'r rhai yn Rhagolwg Economaidd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad

Economaidd (a adwaenir fel yr OECD)⁶ a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2025, gyda thwf o 3.2% yn 2025 a 2.9% yn 2026.

Fe wnaeth yr IMF⁷ ddarogan y byddai twf CDG yn yr Unol Daleithiau yn 2.0% yn 2025, sef diwygiad i fyny o 0.1 pwynt canran, ac mae'n disgwyl iddo godi yn 2026 i 2.1%. Y ffigurau cymharol ar gyfer ardal yr Ewro yw twf o 1.2% yn 2025 ac 1.1% yn 2026. Yn y DU, rhagamcan twf yr IMF yw 1.3% yn 2025 a 2026.

Ymhlith y risgiau i weithgarwch economaidd byd-eang a nodwyd yn adroddiad Rhagolwg Economaidd y Byd yr IMF roedd ansicrwydd parhaus, lefelau uwch o amddiffyniaeth a sioc i gyflenwad llafur. Gallai sefydlogrwydd gael ei fygwth gan "wendidau cyllidol, cywiriadau posibl i'r farchnad ariannol, ac erydiad sefydliadau".⁸

⁴ <https://www.imf.org/en/publications/weo/issues/2025/10/14/world-economic-outlook-october-2025>

⁵ <https://www.imf.org/en/Publications/WEO/Issues/2025/07/29/world-economic-outlook-update-july-2025>

⁶ https://www.oecd.org/en/publications/oecd-economic-outlook-volume-2025-issue-2_9f653ca1-en/full-report.html

⁷ <https://www.imf.org/en/publications/weo/issues/2025/10/14/world-economic-outlook-october-2025>

⁸ <https://www.imf.org/en/publications/weo/issues/2025/10/14/world-economic-outlook-october-2025>

Pwysau chwyddiant y DU

Yn ôl data'r SYG, roedd chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) deuddeg mis yn y DU yn 3.2% ym mis Tachwedd 2025, i lawr o 3.6% yn y deuddeg mis hyd at fis Hydref.⁹ Daeth y cyfraniadau mwyaf i lawr i gyfradd chwyddiant flynyddol y MPD o'r adrannau bwyd a diodydd di-alcohol, ac alcohol a thybaco. Nododd yr SYG fod y cyfraniadau i lawr wedi'u "gwrthbwyso'n rhannol gan gyfraniad bach i fyny o gyfathrebu". Mae hyn yn awgrymu, er bod chwyddiant pennawd yn lleddfu, bod pwysau prisiau sylfaenol yn parhau i fod yn bresennol mewn rhannau o'r economi.

Gellir dadlau bod Mynegai Prisiau Defnyddwyr Craidd yn ddangosydd gwell o'r graddau y gallai chwyddiant fod wedi'i wreiddio yn yr economi o hyd gan ei fod yn eithrio cydrannau anwadal y Mynegai Prisiau Defnyddwyr fel prisiau ynni a bwyd. Cynyddodd Mynegai Prisiau Defnyddwyr Craidd 3.2% yn y deuddeg mis hyd at Dachwedd 2025, tra bod y ffigur cymharol yn y deuddeg mis hyd at Hydref 2025 yn 3.4%.¹⁰

Cafodd statws ystadegau swyddogol achrededig Mynegai Prisiau Cynhyrchwyr y Swyddfa Ystadegau Gwladol¹¹ ei atal ar adeg ysgrifennu, tra'n aros am adolygiad, oherwydd bod problem wedi'i nodi gyda'r dulliau cysylltu cadwyn a ddefnyddir i gyfrifo'r mynegai. Fodd bynnag, mae data newydd bellach wedi'i ryddhau. Yn y flwyddyn hyd at Dachwedd 2025, cynyddodd cyfradd flynyddol prisiau allbwn cynhyrchwyr (giât y ffatri) 3.4%, i lawr o gynnydd o 3.6% yn y flwyddyn hyd at Hydref. Daeth y cyfraniadau mwyaf i fyny at y gyfradd chwyddiant allbwn flynyddol ym mis Tachwedd 2025 o allbynnau cynhyrchion bwyd (lle cododd prisiau 4.2%, o'i gymharu â chynnydd o 4.6% yn y flwyddyn hyd at Hydref), ac allbynnau cerbydau modur ac offer trafnidiaeth arall (cododd prisiau 7.2% yn y flwyddyn hyd at Dachwedd 2025, o'i gymharu â chynnydd o 6.6% yn y flwyddyn hyd at Hydref 2025). Y cyfraniad mwyaf tuag i lawr i'r gyfradd chwyddiant allbwn blynyddol oedd o allbynnau golosg a chynhyrchion petrolewm wedi'u mireinio, lle gostyngodd prisiau 0.6% yn y flwyddyn hyd at Dachwedd 2025, heb newid o'r flwyddyn hyd at Hydref 2025.

Banc Lloegr yn torri Cyfradd y Banc ym mis Rhagfyr 2025

Ar ôl cynnal y Gyfradd Banc ar 4.0% ers mis Medi 2025, Pleidleisiodd Pwyllgor Polisi Ariannol (a adwaenir fel yr MPC) Banc Lloegr i dorri Cyfradd y Banc i 3.75% ym mis Rhagfyr 2025.¹² Nododd yr MPC yn ei adroddiad cryno ar gyfer mis Rhagfyr 2025 y bydd y rhagolygon ar gyfer chwyddiant yn pennu graddfa lacio pellach polisi ariannol, gan nodi: "Mae cyfyngoldeb polisi wedi gostwng

wrth i Gyfradd y Banc gael ei gostwng 150 pwynt sylfaen ers mis Awst 2024. Ar sail y dystiolaeth gyfredol, mae'n debygol y bydd Cyfradd y Banc yn parhau ar lwybr graddol tuag i lawr". Mae hyn yn adlewyrchu symudiad i ffwrdd o osodiadau ariannol cyfyngol, gan adael polisi yn sensitif i ddatblygiadau mewn chwyddiant a thwf cyflogau.

⁹ <https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/bulletins/consumerpriceinflation/november2025>

¹⁰ <https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/bulletins/consumerpriceinflation/november2025#latest-movements-in-cpi-inflation>

¹¹ <https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/bulletins/producerpriceinflation/november2025>

¹² <https://www.bankofengland.co.uk/monetary-policy-summary-and-minutes/2025/december-2025>

CDG y DU yn gostwng yn y tri mis hyd at Hydref 2025

Amcangyfrifir bod cynnyrch domestig gros (CDG) real y DU wedi gostwng 0.1% yn y tri mis hyd at Hydref 2025 o'i gymharu â'r tri mis hyd at Orffennaf 2025.¹³ Mae'r SYG yn nodi mai'r gostyngiad o 0.1% yn y tri mis hyd at Hydref 2025 oedd y gostyngiad tri mis cyntaf o'r fath mewn CDG real ers mis Rhagfyr 2023.

Yn ôl sector, nid oedd twf o gwbl yn allbwn gwasanaethau'r DU yn y tri mis hyd at Hydref 2025, ar ôl twf ym mhob cyfnod o dri mis o Ionawr 2024 i Fedi 2025. Y cyfrannwr cadarnhaol mwyaf at allbwn gwasanaethau yn y tri mis hyd at Hydref 2025 oedd gweithgareddau eiddo tiriog (i fyny 0.4%). Y sector gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol oedd y cyfrannwr negyddol mwyaf (i lawr 1.6%).

Gostyngodd allbwn yn sector cynhyrchu'r DU tua 0.5% yn y tri mis hyd at fis Hydref 2025 o'i gymharu â'r tri mis hyd at fis Gorffennaf 2025, yn

dilyn cwmp o 0.5% yn y tri mis hyd at fis Medi 2025. Y prif gyfrannwr at y cwmp hwn oedd y sector gweithgynhyrchu (i lawr 0.7%). O fewn y sector gweithgynhyrchu, y cyfrannwr negyddol mwyaf oedd gweithgynhyrchu offer trafnidiaeth (i lawr 8.7%, yn bennaf oherwydd cwmp yng ngweithgynhyrchu cerbydau modur yn sgil ymosodiad seiber a ddechreuodd ym mis Medi 2025 ar Jaguar Land Rover¹⁴), gweithgynhyrchu cemegau a chynhyrchion cemegol (i lawr 2.4%), a gweithgynhyrchu cynhyrchion fferyllol sylfaenol (i lawr 1.0%). Mae hyn yn tanlinellu'r graddau y mae canlyniadau CDG tymor byr wedi'u dylanwadu gan siociau penodol i'r sector, ochr yn ochr â gwendid ehangach mewn cynhyrchu.

Mae amcangyfrifon CDG misol yn datgelu bod allbwn yn economi'r DU wedi gostwng 0.1% ym mis Hydref 2025, gyda hyn yn dilyn gostyngiad tebyg o 0.1% ym mis Medi 2025.¹⁵

Cynyddodd buddsoddiad busnes y DU yn 2025Ch3

Cynyddodd buddsoddiad busnes y DU 1.5% yn 2025Ch3, wedi'i ddiwygio i fyny o ostyngiad o 0.3% yn yr amcangyfrif dros dro, yn ôl canlyniadau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.¹⁶ Nododd y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod yr addasiad yn bennaf oherwydd "diwygiad cadarnhaol o adeiladau a

strwythurau eraill oherwydd data arolwg diweddarach". Roedd y ffigur diwygiedig 2.7% yn uwch na'r lefel yn 2024Ch3. Fodd bynnag, mae twf buddsoddiad yn parhau i fod yn anwastad ar draws sectorau ac yn sensitif i ddiwygiadau, gan dynnu sylw at fregusrwydd yr adferiad mewn gwariant cyfalaf.

¹³ <https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/gdpmonthlyestimateuk/october2025>

¹⁴ <https://www.smmr.co.uk/vehicle-production-down-in-october-but-growth-on-the-horizon/>

¹⁵ <https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/gdpmonthlyestimateuk/october2025>

¹⁶ <https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/businessinvestment/julytoseptember2025revisedresults>

Nifer y swyddi gwag yn y DU yn parhau i ostwng

Yn y cyfnod rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2025, roedd nifer y swyddi gwag yn y DU yn 729,000 – gostyngiad o 2,000 o'i gymharu â'r chwarter blaenorol (Mehefin i Awst 2025).¹⁷ Yn mis Medi i fis Tachwedd 2025, roedd cyfanswm y swyddi gwag i lawr 77,000 o lefel y flwyddyn flaenorol, ac roeddent 66,000 (8.3%) yn is na'u lefel cyn pandemig y coronafeirws (COVID-19) rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2020. Gall y gostyngiad mewn swyddi gwag fod yn gysylltiedig â'r cynnydd yn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Cenedlaethol o fis Ebrill 2025, gan ychwanegu at gostau i gyflogwyr ac arwain at ryw faint o leihau recriwtio. Gall y tueddiadau hyn adlewyrchu cyfuniad o feddalu cylchol yn y galw a chyfyngiadau strwythurol mwy hirdymor o fewn rhannau o'r farchnad lafur. Y gostyngiadau cyfrannol mwyaf mewn swyddi gwag rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2025 o'i gymharu â'r chwarter blaenorol oedd yn y sector cyflenwi trydan, nwy ac ati (i lawr 18.9%), mwynloddio a chwarela (gostyngiad o 15.4%), a gweithgareddau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol (i lawr 6.3%).

Mae amcangyfrifon cynnar Gwybodaeth Amser Real Talu Wrth Ennill¹⁸ yn dangos gostyngiad yn nifer y gweithwyr cyflog yn y DU ar gyfer Tachwedd 2025 i 30.3m, gostyngiad o 171,000 o weithwyr (neu 0.6%) o'i gymharu â'r ffigur ar gyfer Tachwedd 2024. Yn y flwyddyn hyd at

Dachwedd 2025, roedd y cynnydd mwyaf mewn gweithwyr cyflog yn y DU yn y sector iechyd a gwaith cymdeithasol (cynnydd o 31,000 o weithwyr neu 0.7%) tra bod y gostyngiad mwyaf yn y sector cyfanwerthu a manwerthu (gostyngiad o 70,000 neu – 1.6%).¹⁹ Gwelwyd gostyngiad mewn gweithwyr cyflog rhwng Tachwedd 2024 a Thachwedd 2025 hefyd mewn nifer o sectorau eraill, gan gynnwys gweithgynhyrchu, adeiladu, llety a gweithgareddau gwasanaeth bwyd, gwybodaeth a chyfathrebu, gwasanaethau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol, gweinyddol a chymorth, ac addysg.

Gostyngodd nifer y gweithwyr cyflogedig yng Nghymru 11,600 (neu – 0.9%) i 1.31m yn y flwyddyn hyd at Dachwedd 2025.²⁰ Mae data rhanbarthol y DU ar weithwyr cyflogedig yn ôl sector yn cael ei ddiweddarau'n llai aml, ond mae'r data ar gyfer Hydref 2025 yn dangos bod y gostyngiad mewn cyfaint gweithwyr cyflogedig yng Nghymru dros y flwyddyn yn fwyaf amlwg mewn cyfanwerthu a manwerthu (gostyngiad o 3,400 o weithwyr neu – 1.9%), gweithgareddau llety a gwasanaeth bwyd (gostyngiad o 2,500 o weithwyr, neu – 2.7%), ac addysg (2,000 o weithwyr, neu – 1.1%).²¹ Mae'r patrwm hwn yn awgrymu bod pwysau cyflogaeth yng Nghymru yn parhau i fod wedi'i ganoli mewn sectorau sy'n wynebu defnyddwyr ac sy'n sensitif i gostau.

¹⁷ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/jobsandvacanciesintheuk/deceember2025>

¹⁸ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/earningsandemploymentfrompayasyouearnrealtimeinformationuk/deceember2025>

¹⁹ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/realtimeinformationstatisticsreferencetableseasonallyadjusted>

²⁰ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/realtimeinformationstatisticsreferencetableseasonallyadjusted>

²¹ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/realtimeinformationstatisticsreferencetableseasonallyadjusted>

Cyfraddau diweithdra yn y DU ac yng Nghymru

Am y cyfnod o ddeuddeg mis hyd at fis Medi 2025, amcangyfrifwyd bod cyfradd ddiweithdra'r DU (pawb 16+ oed) yn 4.2% yn ôl ffigurau o Arolwg Poblogaeth Blyneddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol.²² Roedd hyn yn cynrychioli cynnydd o 0.5 pwynt canran o'i gymharu â'r ffigur ar gyfer y flwyddyn hyd at fis Medi 2024.

Y cyfraddau diweithdra rhanbarthol uchaf yn y DU yn y deuddeg mis a ddaeth i ben ym mis Medi 2025 oedd yn Llundain (5.6%), Gorllewin

Canolbarth Lloegr (5.4%), Gogledd-ddwyrain Lloegr (4.8%), a Chymru (4.5%), tra bod y cyfraddau isaf yng Ngogledd Iwerddon (1.9%), De-orllewin Lloegr (3.3%), De-ddwyrain Lloegr (3.5%), a'r Alban (3.7%). Yng Nghymru, roedd y gyfradd ddiweithdra ar gyfer y cyfnod o ddeuddeg mis hyd at fis Medi 2025 (a nodwyd uchod fel 4.5%) yn cynrychioli cynnydd o 1.6 pwynt canran o'r gyfradd ddiweithdra yn ystod y deuddeg mis a ddaeth i ben ym mis Medi 2024.

Nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau diweithdra yn gostwng yn y DU a Chymru

Yn ystod y flwyddyn hyd at fis Tachwedd 2025, gostyngodd nifer y bobl oedd yn hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig â diweithdra yn y DU (heb eu haddasu'n dymhorol) 58,700 i 1.67m o bobl.²³

Yng Nghymru, hawliodd 63,395 o bobl fudd-daliadau sy'n gysylltiedig â diweithdra ym mis Tachwedd 2025 (sy'n cyfateb i 3.3% o'r boblogaeth breswyl 16 i 64 oed, heb ei haddasu'n dymhorol, o'i gymharu â ffigur o 3.9% ar gyfer y DU), gostyngiad o 2,580 yn nifer yr hawlwr o'i gymharu â mis Tachwedd 2024.²⁴ Dylid nodi bod

y gwerthoedd ar gyfer Tachwedd 2025 yn rhai dros dro ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Yr awdurdodau unedol yng Nghymru gyda'r gyfran uchaf o'r boblogaeth o oedran gweithio yn hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig â diweithdra, yn ôl y data ar gyfer Tachwedd 2025, oedd Casnewydd (4.5%), Blaenau Gwent (3.9%), Caerdydd (3.7%), Torfaen (3.6%), a Chonwy (3.6%), a'r rhai gyda'r cyfrannau isaf oedd Sir Fynwy (2.3%), Powys (2.5%), Ceredigion (2.5%), a Sir y Fflint (2.8%).

Mae anweithgarwch economaidd yn parhau i ostwng yn y DU a Chymru

Roedd cyfradd anweithgarwch y DU (16 i 64 oed) yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2025 yn 21.1% yn ôl data Arolwg Poblogaeth Blyneddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol.²⁵ Roedd hyn yr un gyfradd â chyfradd y flwyddyn flaenorol (Hydref 2023 i Fedi 2024). Yng Nghymru, y ffigur cymharol oedd 24.1% yn y deuddeg mis a ddaeth i ben

ym mis Medi 2025, i lawr 1.0 pwynt canran o'r ffigur yn y deuddeg mis a ddaeth i ben ym mis Medi 2024. Er gwaethaf gwelliannau diweddar, mae anweithgarwch yn parhau i fod yn uwch yng Nghymru o'i gymharu â chyfartaledd y DU, gan barhau i gyfyngu ar gyflenwad llafur.

²² SYG, Arolwg Poblogaeth Blyneddol, <https://www.nomisweb.co.uk/>

²³ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/outofworkbenefits/datasets/claimantcountcla01>

²⁴ <https://stats.gov.wales/en-GB/64d58bef-c97c-4413-8aed-2298eac3a419>

²⁵ SYG, Arolwg Poblogaeth Blyneddol <https://www.nomisweb.co.uk/>


Cynnydd yn allbwn diwydiant adeiladu Cymru o 2024Ch4 i 2025Ch2

Mae Ffigur 2.1 yn dangos y duedd ym mynegeion cynhyrchu, adeiladu a gwasanaethau marchnad Cymru o 2022Ch2 i 2025Ch2. Yn ystod y cyfnod hwn, arhosodd mynegai gwasanaethau marchnad yn gymharol sefydlog, gan fod 1.5% yn uwch na lefel 2023 ar gyfer Cymru yn 2025Ch2. Cyrhaeddodd y ffigur cymharol ar gyfer y DU gyfan 2.6% uwchlaw lefel 2023. Roedd mynegai cynhyrchu Cymru yn 2025Ch2 3.8% islaw lefel 2023 ar gyfer Cymru, gyda'r ffigur cyfatebol ar gyfer y DU gyfan 2.0% islaw lefel 2023. Roedd yr arafwch mewn gweithgareddau yn Tata Steel yn ne Cymru yn un o'r ffactorau a gafodd effaith negyddol ar y mynegai o ran olaf 2024 ac i mewn i 2025.

Profodd sector adeiladu Cymru ail chwarter yn olynol o dwf yn 2025Ch2 – gyda chymorth i ryw raddau gan lacio cyfraddau llog – ond arhosodd mynegai adeiladu Cymru 24.3% yn is na lefel Cymru yn 2023 yn 2025Ch2, gyda'r ffigur cymharol ar gyfer y DU gyfan yn cyrraedd 2.2% uwchlaw lefelau 2023. Mae sylwebyddion marchnad wedi nodi'r budd posibl i'r sector adeiladu o gynyddu twf canolfannau data yn sgil datblygiadau DA.²⁶ Yng Nghymru, yn ôl y sôn, mae Canolfannau Data Vantage yn bwriadu buddsoddi £10bn yn ne Cymru mewn safleoedd fel hen Ffatri Peiriannau Ford ym Mhen-y-bont ar Ogwr.²⁷ Er bod lefelau allbwn yn parhau i fod ymhell islaw meincnodau 2023, mae buddsoddiadau piblinell a gyhoeddwyd yn awgrymu cefnogaeth tymor canolig bosibl ar gyfer gweithgaredd adeiladu.

Ffigur 2.1.

Mynegeion allbwn Cymru: tuedd 2022Ch2 – 2025Ch2 (2023=100)



Ffynhonnell: Stats Cymru, Mynegeion Cynhyrchu ac Adeiladu Cymru (2023=100) yn ôl adran a blwyddyn a Mynegai Gwasanaethau Marchnad (2023=100) yn ôl blwyddyn ac ardal.

²⁶ <https://www.rbinsights.com/publications/construction-market-intelligence-cmi-q2-2025/introduction>

²⁷ https://www.gov.wales/over-16-billion-investment-and-thousands-jobs-heading-wales?utm_content=&utm_medium=email&utm_name=&utm_source=govdelivery&utm_term=

Gostyngodd gwerth nwyddau a allforiwyd o Gymru yn y flwyddyn hyd at 2025Ch3

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cynghori rhywfaint o ofal wrth ddehongli data masnach gan fod ffigurau fel arfer yn cael eu cyhoeddi mewn prisiau cyfredol neu enwol (sy'n golygu nad ydynt wedi'u haddasu i gael gwared ar effeithiau chwyddiant).

Ar gyfer y cyfnod hyd at 2025Ch3, mae data masnach nwyddau ar gyfer rhanbarthau'r DU yn dangos bod gostyngiad wedi bod yng ngwerth allforion o holl wledydd y DU, ac eithrio'r Alban, yn y deuddeg mis a ddaeth i ben ym mis Medi 2025 o'i gymharu â'r deuddeg mis blaenorol.²⁸ Gostyngodd gwerth nwyddau a allforiwyd o Gymru 7.3% i £16.9bn yn y deuddeg mis a ddaeth i ben ym mis Medi 2025 (o'i gymharu â gostyngiad o 0.4% yn Lloegr ac 1.0% yng Ngogledd Iwerddon, ond cynnydd o 2.9% yn Yr Alban).

Gostyngodd cyfanswm gwerthoedd allforio nwyddau yng Nghymru yn y rhan fwyaf o gategoriâu cynnyrch dros y flwyddyn hyd at Fedi 2025.²⁹ Gostyngodd gwerth allforion tanwydd mwynau³⁰ i £0.78bn yn y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2025Ch3, o £2.17bn yn y deuddeg mis blaenorol, gostyngiad o 64.0%. Gostyngodd gwerth allforio nwyddau wedi'u gweithgynhyrchu (wedi'u dosbarthu'n bennaf yn ôl deunydd) i £2.28bn yn y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2025Ch3, o £2.64bn yn y deuddeg mis blaenorol, gostyngiad o 13.6%. Fodd bynnag, cynyddodd gwerth allforio peiriannau ac offer trafniadaeth i £9.24bn yn y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2025Ch3, o £8.69bn yn y deuddeg mis blaenorol, cynnydd o 6.4%.

Cyfanswm nifer yr allforwyr i Gymru yn 2025Ch3 oedd 3,053, gostyngiad o 32 (neu 1.0%) o 2024Ch3 (gan ddefnyddio'r Dull Rhif Cyfan).³¹ Yn yr un cyfnod, bu gostyngiad o 3.9% ar gyfer y DU gyfan.³² Dangosodd Cyllid a Thollau EM ddata cyfaint masnach a gyhoeddwyd ar gyfer y flwyddyn hyd at 2025Ch3 fod màs net o 3.83 biliwn cilogram wedi'i allforio o Gymru, gostyngiad o 35.7% o'i gymharu â'r deuddeg mis blaenorol.³³

Dros y flwyddyn hyd at 2025Ch3, gostyngodd cyfanswm gwerth allforion Cymru yn ôl cynhyrchion i'r Unol Daleithiau i £2.18bn, o £2.55bn yn y deuddeg mis blaenorol, gostyngiad o 14.5%.³⁴ Mae hyn yn awgrymu bod Cymru'n parhau i fod yn agored i newidiadau mewn galw byd-eang ac amodau masnach.

Yn y flwyddyn hyd at fis Medi 2025, gostyngodd gwerth nwyddau a fewnforiwyd yng Nghymru 1.6% i £20.8bn o'i gymharu â'r deuddeg mis blaenorol. Roedd hyn yn cymharu â chynnydd yng ngwerth mewnforyn yn yr Alban o 6.7%, yn Lloegr o 1.9%, a Gogledd Iwerddon o 5.6%.³⁵

Yng Nghymru, cyfanswm y mewnforyn yn 2025Ch3 oedd 8,217, gostyngiad o 7.6% o'i gymharu â'r ffigur yn 2024Ch3. Yn y DU, cynyddodd cyfanswm y mewnforyn 1.8% dros yr un cyfnod.³⁶ Dangosodd data cyfaint masnach a gyhoeddwyd gan Gyllid a Thollau EM, ar gyfer y flwyddyn hyd at 2025Ch3, fod màs net o 16.16 biliwn cilogram wedi'i fewnforio i Gymru, gostyngiad o 6.2% o'r flwyddyn flaenorol hyd at ddiwedd 2024Ch3.³⁷

²⁸ <https://www.uktradeinfo.com/trade-data/regional/2025/uk-regional-trade-in-goods-statistics-third-quarter-2025/>

²⁹ <https://www.gov.wales/international-goods-trade-interactive-dashboard>

³⁰ Cyhoeddodd CTHEM rag-gyhoeddiad o gywiriadau i Ystadegau Masnach Nwyddau Tramor y DU yn dilyn nodi gwall yn effeithio ar allforion tanwydd (HS2 Pennod 27). Bydd cyfrifyddu RTS diwygiedig ar gyfer y cywiriad ar gael ar 19 Mawrth 2026 ar gyfer holl genhedloedd a rhanbarthau'r DU gan gynnwys Cymru, ochr yn ochr â chyfres amser wedi'i chywiro yn ôl i Fawrth 2024. Cyn cyhoeddi, mae CTHEM wedi amcangyfrif y byddai'r cywiriad yn cynyddu allforion nwyddau Cymru ar gyfer 2024 tua 7.9%, (£1.4 biliwn) o'i gymharu â'r cyfanswm blyneddol cyhoeddiedig cyfredol ar gyfer 2024 o £17.5 biliwn. Ar gyfer Ionawr - Medi 2025, amcangyfrifir y bydd allforion yn cynyddu tua 12.1% (£1.5 biliwn) o'i gymharu â'r cyfanswm cyhoeddiedig cyfredol ar gyfer 2025 o £12.7 biliwn.

³¹ "Dull y rhif cyfan": Mae busnes yn cyfrif fel 1 ym mhob rhanbarth lle mae ganddo weithwyr.

³² <https://www.uktradeinfo.com/trade-data/regional/2025/uk-regional-trade-in-goods-statistics-third-quarter-2025/#datasets>

³³ <https://www.gov.wales/international-goods-trade-interactive-dashboard>

³⁴ <https://www.gov.wales/international-goods-trade-interactive-dashboard>

³⁵ <https://www.uktradeinfo.com/trade-data/regional/2025/uk-regional-trade-in-goods-statistics-third-quarter-2025/>

³⁶ <https://www.uktradeinfo.com/trade-data/regional/2025/uk-regional-trade-in-goods-statistics-third-quarter-2025/#datasets>

³⁷ <https://www.gov.wales/international-goods-trade-interactive-dashboard>

Rhagolygon economi'r DU

Cyhoeddwyd cymhariaeth o ragolygon annibynnol a dderbyniwyd rhwng 1 a 12 Rhagfyr 2025 yn Rhagolygon Trysorlys EM ar gyfer Economi'r DU ym mis Rhagfyr 2025.³⁸ Cyfartaledd y rhagolygon newydd ar gyfer twf CDG y DU yn 2025 oedd 1.4%, yr un fath â'r hyn a ragwelwyd gan gyfartaledd y rhagolygon newydd yng nghyhoeddiad Tachwedd 2025.³⁹

Mae Atodiad 2 i'r adroddiad hwn yn dangos crynodeb o ragolygon CDG dethol ar gyfer y DU ar gyfer 2025 a 2026, ynghyd â rhagolygon ar gyfer cyfradd Ddiweithdra'r Arolwg o'r Llafurlu (AOLI), a'r twf mewn prisiau ar gyfer chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) a Mynegai Prisiau Manwerthu (MPM).

³⁸ <https://www.gov.uk/government/statistics/forecasts-for-the-uk-economy-december-2025>

³⁹ <https://www.gov.uk/government/statistics/forecasts-for-the-uk-economy-november-2025>

- Parhaodd hyder busnesau bach i ostwng yn 2025Ch3.
- Adroddodd 24% o fusnesau bach a chanolig dwf yn y 12 mis diwethaf yn ystod 2025Ch3.
- Roedd genedigaethau busnesau yng Nghymru yn fwy na marwolaethau busnesau yn ystod 2025Ch3.


Hyder busnesau bach yn parhau i ostwng yn 2025Ch3

Disgynnodd Mynegai Busnesau Bach (MBB) Ffederasiwn Busnesau Bach y DU (FfBB)⁴⁰ ymhellach i - 58.1 yn ystod 2025Ch3 yn dilyn cwmp yn y chwarter blaenorol a gododd y

mynegai i - 44.1, er ei fod yn parhau i fod i fyny o'r isafswm pedair blynedd o - 64.5 a gofnodwyd yn ystod 2024Ch4.⁴¹ Mae Ffigur 3.1 yn dangos tuedd MBB yr FfBB rhwng 2023Ch3 a 2025Ch3.

Ffigur 3.1.

Mynegai Hyder Busnesau Bach y DU, 2023Ch3 - 2025Ch3



Ffynhonnell: Mynegai Busnesau Bach yr FfBB ⁴²

⁴⁰ Mae'r FfBB yn egluro: 'Mae'r Mynegai Busnesau Bach yn fynegai pwysol o'r ymatebion i'r cwestiwn: "Gan ystyried perfformiad cyffredinol eich busnes, ac anwybyddu unrhyw amrywiadau tymhorol arferol ar yr adeg hon o'r flwyddyn, sut ydych chi'n gweld rhagolygon busnes dros y tri mis nesaf, o'i gymharu â'r tri mis blaenorol?" Rhoddir y pwysoliad +2, gwelliant ychydig +1, tua'r un fath â 0, ychydig yn waeth - 1, a llawer yn waeth - 2 i gyfran y cwmnïau sy'n nodi gwelliant mawr; mae'r Mynegai Busnesau Bach yn deillio o swm y ffactorau hyn'. Mae'r FfBB yn egluro bod maint y sampl yng Nghymru yn rhy fach i gyhoeddi data sydd wedi'i gyfyngu i Gymru (sef hefyd yr achos yng Ngogledd Iwerddon).

⁴¹ Mynegai Busnesau Bach y FfBB, 2025Ch2 <https://www.fsb.org.uk/resources/reports/small-business-index>

⁴² Mynegai Busnesau Bach y FfBB, 2025Ch2 op. cit.

Yn 2025Ch3, roedd balans net busnesau bach a oedd yn nodi twf refeniw yn - 34.3, gostyngiad pellach ar y - 26.8 yn 2025Ch2 a - 25.4 yn 2025Ch1. Yn y cyfamser, roedd disgwyliadau ar gyfer twf refeniw yn ystod 2025Ch4 yn - 27.3.

Am y chweched chwarter yn olynol yn ystod 2025Ch3, cofnododd pob sector ddarlleniad negyddol. Busnesau llety a gwasanaeth bwyd

oedd y sector mwyaf pesimistaidd yn 2025Ch3 gyda darlleniad SBI o 88.6, i lawr 13.4 pwynt o'r chwarter blaenorol. Gwybodaeth a chyfathrebu a gweithgynhyrchu a brofodd y cwympiadau mwyaf arwyddocaol mewn teimlad busnes rhwng 2025Ch2 a 2025Ch3. Mae hyn yn dangos bod gwendid mewn hyder yn eang ei sail, er bod ei ddwyser yn amrywio ar draws sectorau.

Yr economi ddomestig yw'r prif bryder i fusnesau bach a chanolig o hyd

At ei gilydd, yr economi ddomestig oedd y rhwystr i dwf a grybwyllwyd amlaf yn 2025Ch3, tra bod y baich treth, costau llafur, a galw defnyddwyr yn parhau i fod y rhwystrau nesaf a grybwyllwyd amlaf i dwf. Yn y cyfamser, mynediad at gyllid a chost cyllid oedd y rhwystrau i dwf a grybwyllwyd leiaf aml.

Cofnododd y Monitor Hyder Busnes (BCM) Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (a adwaenir fel ICAEW) ar gyfer 2025Ch3 hefyd ostyngiad pellach yn hyder busnes cyffredinol y DU i - 7.3 (o - 4.2 yn 2025Ch2 a - 3.0 yn 2025Ch1), y pumed dirywiad chwarterol yn olynol. Mae'r mynegai yn parhau i fod yn sylweddol islaw ei norm hanesyddol o +5.3.⁴³ Nododd y BCM fod hyder busnes rhanbarthol yn gymysg, gyda rhai rhanbarthau'r DU yn disgyn ymhellach i diriogaeth negyddol yn ystod 2025Ch3. Fodd bynnag, Cymru oedd yr unig genedl neu ranbarth yn y DU i gofnodi darlleniad cadarnhaol, gan gyrraedd +0.9, gan barhau â'r gwelliant a nodwyd yn 2025Ch2. Yn ogystal, adroddodd 4.7% o fusnesau Cymru am gynnydd mewn twf elw yn ystod trydydd chwarter 2025, y cryfaf o holl

genhedloedd a rhanbarthau'r DU, tra bod cyfartaledd y DU yn 2.3%.

